**Hon yw fy fflam fach i**
Hon yw fy fflam fach i
Rhannaf ei gobaith hi

Cariad yw'n fflam fach i
Rhannaf ei gobaith hi

Rhyddid yw'n fflam fach i
Rhannaf ei gobaith hi

Heddwch yw'n fflam fach i
Rhannaf ei gobaith hi

**Pedwar tymor yn y flwyddyn gron**
Diolch am yr haf
Haul a gwres a dyddiau hir
Diolch am yr haf
Glan mor ac awyr glir

Hydref sydd mor hardd
Dail yr ardd yn newid lliw
Hydref sydd mor hardd
Mae mor amryliw

Pedwar tymor yn y flwyddyn gron

Gaeaf ddaw mor oer
Rhew ac eira, gwynt a glaw
Gaeaf ddaw mor oer
Rhown faneg am bob llaw

Daw y gwanwyn tlws
Bywyd newydd, blagur ir
Daw y gwanwyn tlws
I harddu'r cloddiau

Pedwar tymor yn y flwyddyn gron

**Fel hyn ma isio byw**
Fel hyn ma isho byw
dyna ddwedodd Iesu Grist
wrth iddo ddysgu'r byd am gariad Duw
felly – fel hyn ma isho byw

os bydd rhwyun yn dy daro ar dy foch dde
paid taro'n ol tro'r foch arall
be? troi'r foch arall?

os bydd rhywun yn gofyn i ti gerdded milltir
dos ymlaen am filltir arall
be? milltir arall?

os bydd rhywun yn gofyn i ti am dy siwmper
rho yn hael – rho dy got hefyd
be? fy nghot hefyd?

**O dewch…**
O dewch  O dewch , O dewch yn awr,
I ddiolch am bob teulu drwy`r byd
O dewch, O dewch, O dewch yn awr
i ddiolch am ein ffrindiau i gyd

Am ein brodyr a`n chwiorydd ac am gariad Duw,
diolch ydy`r gan o hyd X2

Am gymydog ac am gyfaill, ac am gariad Duw,
diolch ydy`r gan o hyd X2